# Tymor yr Haf 2024 – Cynllunio Dosbarth Beca.

Bwyd y byd, celf a'u traddodiadau: Teithio'r byd - cymharu Cymru i Kenya/Affrica.

## Iechyd a Lles- Ydy Kenya a Chymru yn debyg neu'n wahanol?



Ar ddechrau'r tymor newydd, byddwn yn treulio amser yn dod i adnabod ein gilydd ac yn dysgu sut orau i gefnogi pob plentyn. Byddwn yn cwblhau proffiliau un dudalen unigol ac yn gweithio ar y cyd gyda rhieni i sicrhau bod iechyd a lles pob plentyn yn cael ei feithrin. Byddwn yn cael trafodaeth ddosbarth, yn trafod delweddau sy'n arloesi dychymyg sy'n gysylltiedig â'n thema, er mwyn mapio ein thema, gan ddilyn 'llais y disgybl'.

Bydd plant yn trafod ac yn dysgu am arferion ysgol gyfan ac yn dod yn gyfarwydd ag amserlen y dosbarth - byddwn yn cydweithio i greu amserlen dosbarth sydd â ystyr i'r plant ei deall. Byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth o'r cysyniad o amser trwy ddefnyddio geirfa megis: cyn/ar ôl a byddwn yn canu'r gân 'Dyddiau'r Wythnos' i ddysgu dyddiau'r wythnos. Cysylltu ag amser- byddwn yn cymharu ein hamserlen dosbarth ag ysgol yn Affrica, ac yn trafod sut maent yn wahanol/tebyg.

Bydd plant yn cael eu trochi mewn caneuon a rhigymau rhif, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o rifau a meintiau, gan ganolbwyntio ar gyfri ymlaen ac yn ôl e.e. pump crocodeil ayb. Bydd y plant yn defnyddio mwd (a ddefnyddir ar rai tai Africanaidd), i ffurfio rhifau yn yr awyr agored a byddwn yn trefnu a chymharu rhifau ar wahanol fathau o dai gan gymharu tai a welir yng Nghymru ac Affrica. Wrth gwblhau gweithgareddau sy'n seiliedig ar rifau, byddwn yn adnabod, cyfrif ac yn deall gwerth rhifau, trwy gyfrif olion traed anifeiliaid Affricanaidd gan ddefnyddio mwd a chysylltu'r gwerth â'r rhif cywir.

Byddwn yn cymharu Cymru â Kenya, gan ddechrau gyda chymharu map/baner y wlad. Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol? Byddwn yn defnyddio ein sgiliau creadigol i ddylunio ac addurno'r baneri gan ddefnyddio pompomau, i gefnogi ein datblygiad sgiliau echddygol manwl. Bydd y plant yn gwrando ac yn darllen y stori Handa Sypreis, lle byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o ddiwylliant Affrica. Byddwn yn dysgu'r stori ac yn ail adrodd y stori drwy ddull Pie Corbett. Bydd y plant yn ymchwilio ac yn edrych ar waith artist o Kenya, sy'n canolbwyntio ar waith sy'n hybu pawb i fod yn gyfartal, gan ffocysu ar lliw ein croen. Byddwn yn cael trafodaeth ddosbarth, gan edrych ar sut rydym yn debyg/gwahanol i'n gilydd.

## Y Celfyddydau Mynegiannol- Beth mae tlodi yn edrych fel?



Byddwn yn ymchwilio, trafod, ac yn edrych ar draddodiadau bwyd yn Affrica. Byddwn yn cwblhau paentiadau silwét celf reis o ffrwythau. Wrth weithio ar draddodiadau bwyd, bydd y plant yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau mesur, trwy gymharu pwyso a maint eu hoff fwydydd y maent yn eu bwyta, â bwydydd traddodiadol Affrica.

Bydd y plant yn dysgu geirfa Affricanaidd wrth wrando ar gerddoriaeth/caneuon Affricanaidd. Byddwn yn canolbwyntio ar artist o'r enw Michael Armitage, sy'n dod o Affrica ac a ddyluniodd y darn £1 ar gyfer y DU. Ochr yn ochr â dysgu am yr artist, byddwn yn chwarae rôl yn ein siop ffrwythau Affricanaidd ac yn delio ag arian.

Byddwn yn cael carnifal dosbarth, yn dilyn ymlaen o draddodiadau Affricanaidd, lle byddwn yn gweithio ar y cyd i greu dawns i ddilyn y curiad i ddrymiau Affricanaidd. Bydd hyn hefyd yn datblygu dealltwriaeth y plant o symud, trwy ddilyn cyfarwyddiadau symud trwy ddawns e.e. ymlaen/yn ôl ac ati. Byddwn hefyd yn rhoi cynnig ar chwarae drymiau Affricanaidd a dilyn curiadau syml. Bydd sawl 'stondin' ar gael yn y carnifal i gwblhau gweithgareddau fel: celf reis a gwneud gemwaith Affricanaidd. Byddwn yn rhoi cynnig ar fyrbrydau Affricanaidd traddodiadol wrth wrando ar gerddoriaeth Affricanaidd. Ffocws E-ddiogelwch TGCh fydd 'fy ngwaith creadigol' a'n ffocws DCF fydd 'creu cerddoriaeth'. Byddwn yn defnyddio adnoddau digidol i wrando a chreu alawon cerddoriaeth Affricanaidd ein hunain a rhannu ein gwaith gyda'n ffrindiau dosbarth.

**Dyniaethau – Sut fydden ni'n teimlo heb goed?**



Bydd y plant yn cwblhau nifer o weithgareddau yn seiliedig ar ddatblygu eu sgiliau ffonolegol, gwybodaeth Tric a Chlic a gweithgareddau ChATT. Byddwn yn ymchwilio Wangori Mathai a blannodd goed yn Kenya a ganolbwyntiodd ar yr ymgyrch 'Green Belt Movement'. Byddwn yn cael amser cylch i drafod ein teimladau am yr agwedd hon. Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau corfforol trwy wrando a dilyn cyfarwyddiadau 2/3 cam i symud mewn safleoedd arbennig e.e. ymlaen/o dan, ac ati, i gydbwyso eitemau ar ein pennau. Bydd hyn hefyd yn datblygu sgiliau echddygol manwl/gros. Bydd gennym wythnos entrepreneur lle byddwn yn gwerthu celf rydym wedi creu yn ein hamgueddfa ysgol. Byddwn yn trafod ein gwaith gyda rhieni/teulu ac yn trafod y camau a gymerwyd i gyflawni'r dasg. Byddwn yn gwerthu'r gwaith celf ac yn delio ag arian wrth wneud hyn, gan ddeall gwerth pethau. Byddwn yn trafod ac yn edrych ar effaith datgoedwigo mewn gwlad o'r enw Ojiek. Byddwn yn defnyddio offer mapio digidol, i weld y wlad a chymharu'r mater y maent yn delio ag ef â choedwig yng Nghymru. Y goedwig y byddwn yn edrych arni yw Parc Gwledig Penbre. Byddwn yn mynd ar daith yma, i weld y goedwig ac i gael picnic yn y goedwig. Tra yn y goedwig, byddwn yn cyfri'r coed y gallwn eu gweld, gan gyfri mewn setiau e.e. 10/2. Byddwn yn cymharu maint y coed - coeden dalaf/byrraf ayb. Bydd y plant yn dysgu effeithiau datgoedwigo ar iechyd a lles pobl ac anifeiliaid. Ffocws y Fframwaith Ddigidol fydd 'cyflwyno'r camera' lle bydd y plant yn cael cyfle i ddynwared gwaith yr artist 'Boniface Maina' ar JIT, wrth osod ffilteri- prif ffocws y mae'r artist hwn yn ei bortreadu yw datgoedwigo.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Sut mae'r tywydd heddiw?**



Bydd y plant yn cymharu'r tywydd yn Affrica ag yma yng Nghymru. Byddwn yn cwblhau ymchwiliad gwyddoniaeth STEM yn edrych ar sut mae dŵr yn swnio. Wrth gwblhau hyn, bydd y plant yn datblygu eu gwybodaeth o fesur, gan ganolbwyntio ar gynhwysedd e.e. llawn/gwag ac ati. Byddwn yn cydweithio i adeiladu cerflun i'w werthu yn yr amgueddfa. Byddwn yn cynnwys siapiau yn ein gwaith, tra'n canolbwyntio ar batrwm. Wrth ymchwilio i ddŵr, byddwn yn trafod gwahanol ddefnyddiau, gan ganolbwyntio ar sut mae pethau'n rhewi/toddi a disgrifio defnyddiau e.e. soled/hylif ac ati.

Byddwn yn edrych ar ble mae anifeiliaid Africanaidd yn byw, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n byw ger dŵr. Byddwn yn cwblhau ymchwiliad ar helpu'r anifeiliaid i groesi'r dŵr yn ddiogel. I wneud hynny, byddwn yn defnyddio gwrthrychau i adeiladu pont.

Ffocws E-ddiogelwch fydd 'anfon e-bost'. Byddwn yn anfon e-bost i ysgol yn Affrica yn trafod eu tywydd ac yn cymharu sut mae'n wahanol i'n rhai ni o ddydd i ddydd ac ar adegau arbennig o'r flwyddyn. Tra'n ymarfer ar gyfer mabolgampau, byddwn yn rhedeg rasys ac yn cymharu safleoedd e.e. 1af/2il/3ydd ayb Byddwn yn cofnodi a choladu'r data i ddadansoddi pwy enillod yn gyfredinol.

***Y Pedwar Diben***

Byddwn yn trafod ac yn edrych ar effaith datgoedwigo mewn gwlad o'r enw Ojiek. Byddwn yn defnyddio offer mapio digidol, i weld y wlad a chymharu'r mater y maent yn delio ag ef â choedwig yng Nghymru. Y goedwig y byddwn yn edrych arni yw Parc Gwledig Pen-bre. Byddwn yn mynd ar daith yma, i weld y goedwig ac i gael picnic yn y goedwig. Tra yn y goedwig, byddwn yn cyfri'r coed y gallwn eu gweld, gan gyfri mewn setiau e.e. 10/2. Byddwn yn cymharu maint y coed - y goeden dalaf/byrraf ac ati. Yn ystod sesiynau Ysgol Goedwig bydd y plant yn datblygu llain lysiau lle byddant yn plannu, tyfu ac arsylwi newidiadau.

Bydd gennym wythnos entrepreneur lle byddwn yn gwerthu celf rydym wedi creu yn ein hamgueddfa ysgol. Byddwn yn trafod ein gwaith gyda rhieni/teulu ac yn trafod y camau a gymerwyd i gyflawni'r dasg. Byddwn yn gwerthu'r gwaith celf ac yn delio ag arian wrth wneud hyn, gan ddeall gwerth pethau.